

JAMES, DANIEL ('Gwrosydd'; 1847 - 1920), bardd

Enw: Daniel James
Ffugenw: Gwrosydd
Dyddiad geni: 1847
Dyddiad marw: 1920
Priod: Gwenllian James (née Morgan)
Priod: Ann James (née Hopkin)
Rhiant: Mary James (née Morgan)
Rhiant: Daniel James
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awduron: David Myrddin Lloyd, Clive Blakemore

Ganwyd yn Nhreboeth, Abertawe, 23 Ionawr 1848, yn fab i Daniel James, saer maen, a'i wraig Mary (Morgan). Yr oedd ei rieni yn aelodau yn hen eglwys Mynyddbach, lle y canodd ' Gwrosydd ' lawer amdano. Collodd ei dad yn ifanc ac aeth i weithio fel pwdler yng ngwaith haearn Treforus i helpu magu'r plant eraill. Yna gweithiodd am flynyddoedd yng ngwaith alcem Glandwr. Trwythodd ei hun yn *Ysgol Farddol* ac *Ysgol Gymreig* '[Dafydd Morgannwg](#).' Ei enw barddol cyntaf oedd ' Dafydd Mynyddbach,' ond ar awgrym '[Dafydd Morgannwg](#)' fe'i newidiodd i ' Gwrosydd.' Daeth yn enwog fel telynegydd a chyfansoddwr darnau adrodd poblogaidd yn eu dydd, megis ' Ymson y Llofrudd,' ' Ble aeth yr Amen?' ac yn ddiweddarach, ' Fy hen siwt waith ' ac ' Y Gog ac Adar Cymru.' Bu'n cynnal dosbarthiadau gramadeg Cymraeg yn yr ardaloedd lle bu'n byw. Pan oedd yn ganol oed, caeodd gwaith Glandwr, ac aeth ' Gwrosydd ' i Dredegar a Dowlais, ac yna i Flaengarw erbyn 1891, lle y cafodd waith pwyso a thrafod glo ar ben pwll. Daeth yn gyfeillgar â Glyndwr Richards, arweinydd canu, ac fe'i dilynodd i Aberpennar, lle bu ' Gwrosydd ' fyw 20 mlynedd, gan weithio 15 ohonynt yn un o byllau Nixon, ac, ar ôl i'w iechyd wanhau, am bum mlynedd dan y cyngor lleol. Yn 1918 dychwelodd i Dreforus at ei ferch a'i fab yng nghyfraith, ac yno y bu farw ar 11 Mawrth 1920, a'i gladdu ym Mynyddbach. Dadorchuddiwyd tabled efydd iddo yn neuadd gyhoeddus Treboeth yn 1936. Priododd ddwywaith, ag Ann Hopkin, ac yna â gwraig weddw, Gwenllian Parry (gynt Morgan), yn Abertawe yn 1888. Bu hi farw yn 1895. Gadawodd Gwrosydd ddau fab a dwy ferch ar ei ôl.

Cyhoeddodd lawer o farddoniaeth mewn cylchgronau a phapurau newydd (e.e. *Y Darian*), ac yr oedd yn boblogaidd am ei naturioldeb sionc a'i delyngrwydd ysgafn. Cyhoeddwyd *Caneuon Gwrosydd* (Plasmal, 1885), a'r 'ail lyfr,' sef *Caniadau Gwrosydd* (Cwmfafan, 1892). Yn yr ail y ceir ' Calon Lân,' ei ddarn enwocaf, emyn y bu llawer o ganu arno yn ystod y diwygiad (1904-5), a byth er hynny. Cafwyd argraffiadau newydd o'r ddau lyfr gan yr Educational Publishing Co., Caerdydd, yn 1909. Ymddangosasai *Aeron Awen Gwrosydd* yn Aberpennar yn 1898, ac ar ôl ei farw gwnaed casgliad newydd o'i waith gan Gymdeithas y Mabinogion, Abertawe.

Awduron

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Clive Blakemore

Ffynonellau

O. T. Hopkins yn *Y Darian*, Gorffennaf-Awst 1918

'Awstin' yn *Cambria Daily Leader*, 12 Mawrth 1920

South Wales Weekly Post, 20 Chwefror 1920

H. Blackwell, [NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Daniel James](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [16718801](#)

Wikidata: [Q5217665](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

